IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 5 HYDREF 2021

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Sattar a/ac Goddard |

1 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ynghylch yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYD HACNI/LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Gwrthod cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat.

(2) Achos 2

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried adroddiad ynghylch ymddygiad gyrrwr. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gyrrwr wedi parhau i weithio i nifer o wahanol weithredwyr ar ôl profi'n bositif am coronafeirws a chael cyfarwyddyd i hunanynysu.

Cadarnhaodd y gyrrwr ei fod wedi derbyn prawf PCR positif ar gyfer y coronafeirws ar 16 Gorffennaf 2021. Ar 17 Gorffennaf 2021 cysylltodd Tracio ac Olrhain ag ef a gadarnhaodd fod canlyniad ei brawf yn bositif. Cafodd gyfarwyddyd i hunanynysu am 10 diwrnod. Dywedodd y gyrrwr nad oedd wedi hunanynysu a'i fod wedi parhau i weithio'n barhaus drwy gydol y cyfnod, gan dderbyn a chludo teithwyr.

Cododd swyddogion bryderon hefyd nad oedd gyrrwr yn byw yn y cyfeiriad a roddodd i'r Awdurdod Trwyddedu. Roedd wedi defnyddio cyfeiriad preswyl ffug ar gyfer ei gais Cerbyd Hacni / Llogi Preifat a'i drwydded DVLA. Cadarnhaodd wedyn ei fod yn byw mewn cyfeiriad gwahanol gyda pherson arall. Roedd hyn yn groes i'r wybodaeth a ddarparodd i Dracio ac Olrhain a gafodd wybod ei fod yn byw ar ei ben ei hun.

PENDERFYNWYD – Bod y Drwydded Gyrwyr Cerbyd Hacni / Llogi Preifat yn cael ei dirymu oherwydd yr ymddygiad annerbyniol.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified